



Eich cyf:

Ein cyf:

Mawrth 2018

Annwyl Gyfarwyddwr Addysg,

CYNLLUNIAU STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG DIWYGIEDIG (CSGA) 2017-20

Broses Gymeradwyo

Diolch i chi am gyflwyno copi o'r Cynllun diwygiedig wedi'i addasu, mewn ymateb i lythyr y cyn Weinidog dyddiedig 4 Awst 2017.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried ac asesu'r Cynllun a gyflwynwyd gan eich awdurdod a'i gymeradwyo heb addasiadau pellach.

Cyhoeddi a Gweithredu'r Cynllun

Dylai'r awdurdod yn awr gyhoeddi a gweithredu'r Cynllun yn unol â gofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013. Yn y cyd-destun hwn, golyga cyhoeddi:

- ei roi ar wefan yr awdurdod lleol, a
- sicrhau bod copïau o'r cynllun ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt yn –
 - swyddfeydd yr awdurdod lleol, a
 - unrhyw le arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

O dan adran 85(7) o ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CSGA. At hynny, yn unol â'r datganiad diweddar am gefnogaeth ariannol i Band B o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, byddwn yn asesu pob cais yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu nod ac amcanion eich CSGA. Asesir pob cais a gyflwynir o dan y Rhaglen Amlinellol Strategol trosfwaol yn ofalus drwy bob cam o'r broses o gymeradwyo'r prosiect. Mae cymeradwyo prosiectau unigol yn dibynnu ar dderbyn achosion busnes boddhaol.

Fe fyddwn yn awr yn eich annog i ddilyn yr arfer dda sydd wedi cael ei ddatblygu eisoes gan sawl awdurdod, sef llunio cynllun gweithredol yn seiliedig ar dargedau eich Cynllun. Mae gan aelodau'r Fforymau Addysg rôl flaenllaw yn eich cynorthwyo i lunio, gweithredu a monitro'r cynllun gweithredu ac mae'n ffordd o sicrhau fod y Cynllun yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth yn lleol. Os hoffech dempled neu esiampl o gynllun gweithredu yna mae croeso i chi gysylltu â swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg.

Edrychwn ymlaen at barhau i gyd-weithio â chi a monitro cynnydd dros oes y cynllun.

Yn ddiffuant

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Bethan Webb', enclosed within a faint rectangular border.

Bethan Webb
Pennaeth Is-Adran y Gymraeg